

PRIFFYRDD, CYMRU

2015 RHIF 6

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (TIR O FLAEN HEILBRONN WAY, GORSAF PARCFFORDD PORT TALBOT, PORT TALBOT) 2015

Gwnaed 1 Mawrth 2015

Yn dod i rym 6 Mawrth 2015

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1).

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. (1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cau Priffyrdd (Tir o flaen Heilbronn Way, Gorsaf Parcfordd Port Talbot, Port Talbot) 2015.

(2) Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr "y Cyngor" (*"the Council"*) yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot;

ystyr "y datblygwr" (*"the developer"*) yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio wedi ei roi ar ei gyfer;

ystyr "Deddf 1990" (*"the 1990 Act"*) yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; ac

ystyr "y plan a adneuwyd" (*"the deposited plan"*) yw'r plan sy'n dwyn yr enw "Gorchymyn Cau Priffyrdd (Tir o flaen Heilbronn Way, Gorsaf Parcfordd Port Talbot, Port Talbot) 2015" sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn.

(3) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad ei fod wedi ei wneud yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990.

Cau Priffordd

2. Yn ddarostyngedig i erthyglau 3, 4 a 5, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 ac a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau'r briffordd er mwyn galluogi'r datblygiad i gael ei

wneud yn unol â'r caniatadau cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 19 Hydref 2011 o dan y cyfeirnod P2011/0865 ac ar 20 Mai 2014 o dan y cyfeirnod P2014/0243 ac a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

Y Darpariaethau sy'n Angenrheidiol neu'n Hwylus cyn Cau Priffordd

3. Ni chaniateir cau'r rhan o briffordd yn Atodlen 1:-

(a) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy'n dangos sut y mae'r rhan o'r briffordd i'w chau;

(b) hyd nes y bydd y datblygiad yn Atodlen 2 wedi ei ddechrau a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig ei bod yn angenrheidiol cau'r briffordd i alluogi'r datblygiad i fynd rhagddo; ac

(c) hyd nes y bydd y Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr i gadarnhau bod paragraffau (a) a (b) wedi eu bodloni.

Ymgwymerwyr Statudol a Darparwyr

4. Pan fo gan ymgwymerwyr statudol neu ddarparwyr system gyfathrebu gyhoeddus unrhyw gyfarpar o dan y briffordd, ynndi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws yn union cyn cau'r rhan o briffordd yna (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990), bydd gan yr ymgwymerwyr neu'r darparwyr yr un hawliau mewn cysylltiad â'r cyfarpar ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Os na fydd y datblygiad yn Atodlen 2 wedi ei ddechrau yn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan III o Ddeddf 1990 fel cyfnod para'r caniatadau cynllunio, neu os caiff y caniatadau eu dirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â chael effaith.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 1 Mawrth 2015

R MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

- (1) 1990 p. 8. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac maent yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30(2) o Atodlen 11 iddi.
- (2) 1980 p. 66.

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

(Bras amcan yw pob mesuriad)

Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn

Rhan drionglog ei siâp o droetffordd sy'n mesur cyfanswm o 1.9 metr sgwâr ac sydd i'r de o'r briffordd o'r enw Heilbronn Way, Port Talbot

ATODLEN 2

Y Datblygiad

Ailddatblygu Gorsaf Parcffordd Port Talbot gan gynnwys dymchwel rhan o strwythurau presennol yr orsaf yn rhannol ac adeiladu gorsaf newydd a maes parcio newydd.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (TIR O FLAEN HEILBRONN WAY, GORSAF PARCFFORDD PORT TALBOT, PORT TALBOT) 2015

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("y Ddeddf") i awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn er mwyn galluogi'r datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn i gael ei wneud. Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Tir o flaen Heilbronn Way, Gorsaf Parcffordd Port Talbot, Port Talbot) 2015 ("y Gorchymyn") yn peidio â chael effaith os daw'r caniatadau cynllunio mewn cysylltiad â'r datblygiad i ben neu os cânt eu dirymu.

Gellir edrych ar gopiâu o'r Gorchymyn a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol yn: Yr Adran Cefn Gwlad, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Y Ceiau, Ffordd Brunel, Baglan SA11 2GG neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1181142/1.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

- a. nad yw o fewn pwerau'r Ddeddf; neu
- b. na chydymffurfiwyd ag un o ofynion gweithdrefnol y Ddeddf;
- o fewn 6 wythnos i 6 Mawrth 2015 wneud cais at y diben hwnnw i'r Uchel Lys.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.cymru.gov.uk (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Anstatudol/ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref: Gorchymynion Cau/ 2015).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

(Bras amcan yw pob mesuriad)

Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn

Rhan drionglog ei siâp o droetffordd sy'n mesur cyfanswm o 1.9 metr sgwâr ac sydd i'r de o'r briffordd o'r enw Heilbronn Way, Port Talbot

ATODLEN 2

Y Datblygiad

Ailddatblygu Gorsaf Parcffordd Port Talbot gan gynnwys dymchwel rhan o strwythurau presennol yr orsaf yn rhannol ac adeiladu gorsaf newydd a maes parcio newydd yn unol â'r caniatadau cynllunio a roddwyd o dan Ran III o'r Ddeddf gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ar 19 Hydref 2011 o dan y cyfeirnod P2011/0865 ac ar 20 Mai 2014 o dan y cyfeirnod P2014/0243.